



## Themau - Themes

da / gwell / gorau - *good / better / best*

## Patrymau Iaith - Language patterns

Dyma'r ffurfiau rheolaidd yr ansoddair. *Here are the regular forms of the adjectives.*

mor oer â - <i>as cold as</i>	yn oerach na - <i>colder than</i>	yr oera - <i>the coldest</i>
-------------------------------	-----------------------------------	------------------------------

### geiriau hir - long words

mor ddiddorol â <i>as interesting as</i>	mwy diddorol na <i>more interesting than</i>	y mwya diddorol <i>the most interesting</i>
---	---	--

### Irregularities

mor gynnar â - <i>as soon/early as</i>	yn gynharach na - <i>earlier than</i>	y cynhara - <i>the earliest</i>
mor drwm â <i>as heavy as</i>	yn drymach na - <i>heavier than</i>	y tryma - <i>the heaviest</i>
mor ddrud â - <i>as expensive as</i>	yn ddrutach na - <i>more expensive than</i>	y druta - <i>the most expensive</i>

Dyma rai o'r ansoddeiriau hollol afreolaidd - *Here are some of the completely irregular ones*

da	mor dda â - <i>as good as</i>	yn well na - <i>better than</i>	y gorau - <i>the best</i>
drwg	mor ddrwg â - <i>as bad as</i>	yn waeth na - <i>worse than</i>	y gwaetha - <i>the worst</i>
bach	mor fach â - <i>as small as</i>	yn llai na - <i>smaller than</i>	y lleia - <i>the least</i>
mawr	mor fawr â - <i>as big as</i>	yn fwy na - <i>bigger than</i>	y mwya - <i>the most</i>

NODYN: Mae treigladd meddal gyda geiriau benywaidd.

NOTE: *There is a soft mutation with feminine words.*

Y sioe fwya / Y ceffyl mwya  
*The biggest show / The biggest horse*

Nodwch y patrwm gwahanol gyda 'mwya', 'druta', 'gorau' ac ati.

Notice the different pattern with 'mwya', 'druta', 'gorau' etc.

Mae sioe Llanaber mor fawr â sioe Llanwennol.  
Mae sioe Llanaber yn fwy na sioe Llandybie.  
Ond,  
Sioe Llanellwedd yw'r fwya.

## Tasgau - Tasks

### Tasg sain 1 / Audio task 1

Parwch y geiriau hyn a'r ansoddeiriau fel maen nhw'n digwydd yn y clip sain  
*Pair the adjectives with the words as they occur in the audio.*

Y Sioe	druta
Y diwrnod	gorau
Y ceffyl	perta
Y mochyn	mwya
Y tarw	mwya diddorol
Y rhosod	fwya
Y tractor	tewa

### Tasg sain 2 / Audio task 2

Rhowch y geiriau canlynol yn y lle cywir yn y grid.  
*Put the following words in the correct place in the grid.*

Yr ardd fwya  
Yr agosa i'r ysgol a'r parc  
3 stafell wely eitha mawr  
Haws i'r gŵr fynd i'r gwaith  
Yr agosa i'r siopau  
Y ffordd i'r ysgol yn brysurach  
Y gegin dywylla  
Y tŷ druta

Glasfryn	Afallon

## Sgript Sain 1 - Audio Script 1

- Nia:** Wyt ti eisiau dod gyda fi i'r sioe Amaethyddol yn Llanelwedd?
- Delyth:** Y Royal Welsh!
- Nia:** Ie! Y sioe fwya ym Mhrydain!
- Delyth:** Pa ddiwrnod wyt ti'n mynd?
- Nia:** Dydd Mercher - dyna'r diwrnod mwya diddorol.
- Delyth:** Iawn. Wela i di am wyth o'r gloch?
- Nia:** Bydd rhaid i ni ddechrau yn gynharach..... am hanner awr wedi saith.
- Nia:** Wel, dyma ni yn y sioe. Dere i weld yr anifeiliaid yn gynta.  
.....
- Delyth:** Edrycha ar y ceffyl yna - dyna'r ceffyl mwya welais i erioed.
- Nia:** Beth wyt ti'n feddwl o'r mochyn 'na?
- Delyth:** Dyna'r mochyn tewa welais i erioed...  
  
(*sŵn tarw*) A beth am y tarw 'ma!
- Nia:** O! dyma'r tarw gorau yn y sioe - y Welsh Black! Y tarw Du Cymreig.
- Delyth:** Mae ei got e'n dduach na dy wallt di Nia!
- Nia:** Ydy wir, ac yn fwy sgleiniog. Reit, y babelll flodau nesa.
- Delyth:** Bobol bach! Mae'r blodau yn bert.
- Nia:** Wyt ti'n hoffi'r lilis gwyn?
- Delyth:** O ydw, ond mae'r rhosod yn bertach.
- Nia:** Ydyn wir, a'r rhosod pinc yma yw'r perta dw i'n meddwl.
- Delyth:** O diar, mae'n boeth yma.
- Nia:** Dere, mae'n oerach tu allan.  
.....
- Delyth:** Edrycha ar bris y tractor 'na. Pedwar deg mil!
- Nia:** Rwyd ti'n gallu cael rhai drutach.
- Delyth:** Wel, wel! Taswn i'n prynu'r tractor druta yn y sioe...fasai ffermwr yn dod gyda'r tractor?
- Nia:** Ha ha! Dere! Adre!

## Geirfa

**amaethyddol** - *agricultural*

**Prydain** - *Britain*

**gwelais i erioed** - *I ever saw*

**ceffyl** - *horse*

**mochyn** - *pig*

**sgleiniog** - *shiny*

**tarw** - *bull*

**pert** - *pretty*

## Sgript Sain 2 - Audio Script 2

- Mrs Meredith:** Dw i'n hoffi'r tŷ yma, Afallon, ar Heol y Celyn.
- Mrs Jones:** Mae yn dŷ braf.
- Mrs Meredith:** Ond mae'n well gyda fi'r tŷ yma, Glasfryn, ar Ffordd y Bryn.
- Mrs Jones:** Mae'r ddau dŷ'n hyfryd.
- Mrs Meredith:** Gardd Glasfryn yw'r ardd fwya. Ac mae tair ystafell wely eitha mawr yno.
- Mrs Jones:** Ac mae lle i barcio'r car o flaen y tŷ.
- Mrs Meredith:** Oes. Ond, Glasfryn yw'r pella o'r ysgol ac o'r parc yn anffodus.
- Mrs Jones:** Mae e'n agos iawn i'r siopau.
- Mrs Meredith:** O ydy. Basai'n grêt i fi siopa.
- Mrs Jones:** A beth am y gŵr. Pa dŷ yw'r gorau yn ei farn e?
- Mrs Meredith:** Mae'r gŵr yn meddwl bod Afallon yn well. Mae'n agosach i'r parc, i'r ysgol ac mae'n haws iddo fe fynd i'r gwaith.
- Mrs Jones:** Ond?
- Mrs Meredith:** Wel, mae'r ystafell wely fwya yn anferth ond mae'r ddwy ystafell wely arall yn fach, llawer llai na'r ystafelloedd gwely yn Glasfryn.
- Mrs Jones:** O. Dw i'n gweld.
- Mrs Meredith:** Mae Afallon yn agosach i'r ysgol, dw i'n gwybod, ond mae'r ffordd i'r ysgol yn llawer prysurach.
- Mrs Jones:** Fydd y plant yn cerdded i'r ysgol?
- Mrs Meredith:** Bydd Jac, fy mab hynaf, yn cerdded. Baswn i'n hapusach i Jac gerdded o Glasfryn.
- Mrs Jones:** W! Mae cegin fawr yn Glasfryn.
- Mrs Meredith:** Oes, ond mae hi'n dywyllach na'r gegin yn Afallon. Dw i'n hoffi cegin olau.
- Mrs Jones:** Dwyt ti a dy ŵr di ddim yn cytuno felly!
- Mrs Meredith:** Nac ydyn ac mae na broblem arall.
- Mrs Jones:** Ie?

Mrs Meredith :        Glasfryn yw'r tŷ druta .. .o bymtheg mil o bunnoedd!

Mrs Jones:             Pymtheg mil!

Mrs Meredith:        Dw i'n mynd i berswadio fy ngŵr i newid ei feddwl.

Mrs Jones:             Pob lwc!

## Geirfa

credu - *(to) believe*  
 anferth - *huge*  
 cytuno - *(to) agree*  
 tywyll - *dark*  
 golau - *light*  
 newid ei feddwl - *change his mind*

## Atebion - Answers

### Tasg sain 1 / Audio task 1

Y sioe fwya  
 Y diwrnod mwya diddorol  
 Y ceffyl mwya  
 Y mochyn tewa  
 Y tarw gorau  
 Y rhosod perta  
 Y tractor druta

### Tasg sain 2 / Audio task 2

Glasfryn	Afallon
Ffordd y Bryn	Heol y Celyn
yr ardd fwya	yr agosa i'r ysgol a'r parc
yr agosa i'r siopau	yn haws i'r gŵr fynd i'r gwaith
3 ystafell wely eitha mawr	y ffordd i'r ysgol yn brysurach
y tŷ druta	y gegin dywylla